CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

473/57

**HANES – HI3**

**UNED 3**

**ASTUDIAETH FANWL 7**

**Y CHWYLDRO FFRENGIG, tua 1774-1795**

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 7

## Y CHWYLDRO FFRENGIG, tua 1774-1795

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### ADRAN A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Yr *Ancien Régime* ac achosion y Chwyldro Ffrengig, 1774-1789**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Mae clerigwyr esgobaeth St Malo, a alwyd trwy orchymyn y Brenin i roi ystyriaeth i ddulliau hyrwyddo ffyniant y deyrnas, a hwythau'n awyddus i ymateb i fwriadau haelfrydig *(benevolent)* y brenin ac i roi prawf i'r genedl gyfan o'u sêl ynghylch popeth sy'n ymwneud â lles y cyhoedd, wedi paratoi yn eu cynulliadau amrywiol y *cahier* a ganlyn.

Y cyfrifir y pleidleisiau, yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac ym mhob cynulliad gwleidyddol yn y taleithiau, yn ôl y pen ac nid yn ôl yr urdd.

Y gosodir i lawr yn yr un cynulliad fel deddf sylfaenol y deyrnas na chodir unrhyw dreth ac eithrio trwy gytundeb y genedl yn ei chynulliad.

Y bydd y Stadau-Cyffredinol yn cyfarfod yn y dyfodol ar adegau penodol.

Y rhoddir adroddiad i'r genedl, ym mhob cyfarfod o'r Stadau-Cyffredinol, o'r defnydd a wnaed o arian cyhoeddus ers y cyfarfod blaenorol.

Y gwneir cais i ddiogelu hawliau, etholfreintiau *(franchises)* ac imiwneddau ein talaith ni, sef Llydaw.'

[Rhan o *cahier* clerigwyr St Malo, a gyflwynwyd i'r Stadau-Cyffredinol yn 1789]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr y gair '*cahier*' (linell 4). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am y ffordd roedd Ffrainc yn cael ei llywodraethu yn ystod yr *Ancien Régime*? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall yr *Ancien Régime* ac achosion y Chwyldro Ffrengig, 1774-1789? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

**2. Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, 1789-1791**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Rwy'n derbyn y Cyfansoddiad. Rwy'n addo y byddaf yn ei gynnal gartref, yn ei amddiffyn rhag ymosodiad allanol, ac yn achosi iddo gael ei weithredu ymhob dull a modd o fewn y gallu a roddir i mi ganddo. Rwy'n datgan, a minnau'n ymwybodol o'r gefnogaeth a roddir gan fwyafrif llethol y bobl i'r Cyfansoddiad, fy mod yn ildio'r hawl i gyfranogi y bûm yn ei hawlio ynglŷn â'r gwaith hwn, a chan fy mod yn gyfrifol i'r genedl yn unig, wrth i mi ei ildio ni fydd gan neb arall yr hawl i gwyno. Byddwn yn llai na geirwir, serch hynny, pe bawn yn dweud fy mod yn gweld bod gan y peirianwaith gweithredol a gweinyddol yr holl nerth sy'n angenrheidiol i annog gweithredu ac i gynnal undod pob rhan o ymerodraeth mor eang; ond gan fod y farn ar y pwnc hwn ar hyn o bryd yn rhanedig, rwy'n cytuno mai profiad yn unig a gaiff farnu. A minnau wedi defnyddio'n ffyddlon bob dull a roddwyd i mi, ni fydd neb yn gallu fy meirniadu, a bydd y genedl, a'i buddiannau hi o reidrwydd yw'r unig ganllaw, yn mynegi ei barn trwy gyfrwng y dull a bennwyd gan y Cyfansoddiad ar gyfer hynny.

Foneddigion, er mwyn cadarnhau rhyddid, er mwyn sefydlogrwydd y Cyfansoddiad, er mwyn dedwyddwch unigol pob Ffrancwr, mae yna fuddiannau y mae dyletswydd yn ein gorfodi i uno ein holl ymdrechion i'w hyrwyddo. Y buddiannau hynny yw parch tuag at y gyfraith, ailsefydlu trefn, ac aduno'r dinasyddion i gyd.'

[Neges Louis XVI i'r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn y Cyfansoddiad newydd (13 Medi 1791)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr y gair 'Cyfansoddiad' (linell 1). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am farn Louis ym 1791 ynglŷn â'r dyfodol? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, 1789-1791? [20]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*



**Trosodd.**

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**3. Dymchweliad y frenhiniaeth a'r Weriniaeth Gyntaf, 1789-1792**

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Cafodd ymdrech enfawr ei dwyn ynghyd i drafod yr hyn nad yw'n fwy na phennod ddarfodedig *(passing)* yn hanes y chwyldro, un na adawodd fawr o ôl parhaol ar gymdeithas Ffrainc. Sgwarnogod *(a red herring)* fu'r *sans-culottes* yn llythrennol bron a godwyd er mwyn tynnu sylw oddi wrth y problemau cymdeithasol sylfaenol sy'n rhan o hanes y Chwyldro Ffrengig.'

[Alfred Cobban, hanesydd adolygiadol *(revisionist)* a fu'n herio safbwyntiau haneswyr Marcsaidd, yn ysgrifennu yn ei lyfr, *The Social Interpretation of the French Revolution* (1964)]

Ffynhonnell B

'Heb y *sans-culottes* o ddinas Paris, ni allai'r *bourgeoisie* fod wedi ennill buddugoliaeth fel y gwnaeth mewn dull mor radicalaidd. O 1789 hyd Flwyddyn II, cafodd y *sans-culottes* eu defnyddio fel arf effeithiol i ymladd dros y chwyldro ac i amddiffyn y wlad. Pan gawsant hwy eu trechu, fe chwalwyd prif symbyliad *(mainspring)* y chwyldro.'

[Albert Soboul, hanesydd Marcsaidd blaenllaw, yn ysgrifennu yn *The Parisian Sans-Culottes and the French Revolution 1793-94* (1964)]

Ffynhonnell C

'Aeth trigolion pob un o'r maestrefi i Balas y Tuileries, ynghyd â holl Adrannau Paris, wedi'u harfogi fel yr oeddynt ar 20 Mehefin, gan alw am ddiorseddu'r Brenin – ei fod yn fradwr a'i fod wedi colli ei hawl i'r orsedd. Mae'r palas bellach wedi'i ddinistrio bron yn llwyr, a'i ddrysau a'i ffenestri wedi'u torri'n ddarnau mân.'

[Rhan o adroddiad a gyhoeddwyd yn y papur newydd Saesneg, *The Times*, yn sôn am ddigwyddiadau 10 Awst pan ddiorseddwyd Louis (16 Awst 1792)]

Ffynhonnell CH

'Pe baech ond yn gwybod y manylion erchyll am y cyrchoedd lladd! Menywod yn cael eu treisio'n greulon cyn cael eu rhwygo'n ddarnau gan y bwystfilod hyn, perfeddion yn cael eu torri allan a'u gwisgo fel rhubanau, cnawd dynol yn cael ei fwyta'n diferu o waed. Fe wyddoch am fy mrwdfrydedd dros achos y Chwyldro: wel, mae gen i gywilydd ohono erbyn hyn! Mae ei enw da wedi'i ddifwyno gan y dihirod hyn. Mae'n mynd yn erchyll!'

[Rhan o lythyr gan Madame Roland, aelod blaenllaw o'r Girondins, at gefnogwr arall, Bancal des Issarts (9 Medi 1792)]

Ffynhonnell D



[Llun o'r cyfnod yn dangos ymateb y Gweriniaethwyr i faniffesto Brunswick. Gwelir y *sans-culottes* yn dawnsio'r *Carmagnole* (dawns chwyldroadol) o gwmpas coeden ryddid wrth i filwyr y Cynghreiriaid ffoi yn y cefndir (Awst 1792)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau A a B. Sut mae Ffynonellau A a B yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am y *sans-culottes*? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau C ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau C ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio digwyddiadau gwleidyddol yn Ffrainc yn ystod Awst a Medi 1792? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall dymchweliad y frenhiniaeth a'r Weriniaeth Gyntaf, 1789-1792? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*

## 4. Cyfnod y Braw a'r Thermidoriaid

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Danton, ac yntau'n gweld yn blaen, ac yn deall a, phan ddechreuodd y buddugoliaethau, a gafodd amser i drugarhau, yw'r math o ddyn sydd â'i eithafion yn rhamant, a'i gymedroldeb yw sylfaen hanes. Mae gofyn i ni ddelio ag ef fel penboethyn *(enthusiast)* sydd hefyd yn wladweinydd, un sydd â'i feddwl yn ddigon galluog i'w ddeall ei hun hyd yn oed yn ei ffyrnigrwydd.'

[Hilaire Belloc, awdur a bardd Saesneg a gafodd ei eni yn Ffrainc, a oedd yn edmygu gyrfa a delfrydau gwleidyddol Danton, yn ysgrifennu mewn cylchgrawn Saesneg (1899)]

Ffynhonnell B

'Roedd Danton heb unrhyw anrhydedd, egwyddorion na moesoldeb, ac roedd yn mwynhau democratiaeth am y wefr a roddai iddo a dim arall. Addoli trais a dim ond trais a wnâi mewn gwirionedd. Iddo ef, roedd popeth yn fodd i ddiwallu ei ddibenion ei hun. Ac yntau'n ddirmygus o'r werin, am hynny roedd yn well ganddo ormes na rhyddid.'

[Rhan o lyfr gan awdur gwrth-Jacobinaidd, Alphonse de Lamartine, *Histoire des Girondin* (1847)]

Ffynhonnell C

'Bydd Cynrychiolwyr y Bobl yn dal ati'n ddiysgog nes cwblhau'r dasg a ymddiriedwyd iddynt. Fe roddodd y bobl iddynt daranfolltau *(thunderbolts)* o ddialedd ac ni fyddant yn eu rhoi heibio nes y bydd pob un o'u gelynion yn farw. Byddant yn ddigon dewr i lwyddo trwy donnau o gynllwynwyr ac i droedio dros adfeilion er mwyn sicrhau hapusrwydd y Genedl ac adfywio'r byd.'

[Rhan o araith gan Joseph Fouché, cynrychiolydd ar gennad yn Nantes a Lyon (1793)]

Ffynhonnell CH

'Os bydd rhywun yn gofyn rhyw ddydd pam y trefnodd y Cynulliad Cenedlaethol gynllun gwyliadwriaeth *(surveillance)* oedd yn galw am fwy o swyddogion na phoblogaeth lythrennog Ewrop, bydd Ffrancwyr yn ateb: roedd y cynllun hwn yn angenrheidiol oherwydd bod ein gelynion mor niferus. Roeddynt wedi'u lledaenu'n eang, ac roedd y gallu ganddynt i ymdreiddio *(infiltrate)* i swyddi cyhoeddus ac i'n cartrefi hyd yn oed.'

[Rhan o adroddiad gan Robert Lindet, aelod o Bwyllgor Diogelwch y Cyhoedd (20 Medi 1793)]

<u>Ffynhonnell D</u>



[Print gwrth-Jacobinaidd, o waith arlunydd anhysbys, yn dangos carcharorion gwrth-chwyldroadol ar fin cael eu boddi yn afon Loire. Mae'r milwr, un o'r *sans-culottes*, wedi lladrata dillad y carcharorion (1793)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau A a B. Sut mae Ffynonellau A a B yn dangos safbwyntiau cyferbyniol am Danton? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau C ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau C ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r gwrth-chwyldro? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall cyfnod y Braw a'r Thermidoriaid? [24]
*(Yn eich ateb, fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*